**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi, Amgylchedd ac Isadeiledd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 16 Medi 2021 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd C Anderson (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | P K Jones | W G Lewis |
| P Lloyd | P M Matthews | T M White |

**Swyddog/Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Scott Dummett | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: P Downing a P R Hood-Williams

---

## 12 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 13 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi, Amgylchedd ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

Codwyd ymholiadau mewn perthynas â'r arolwg bioamrywiaeth ar-lein a mesurau tawelu traffig. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Lleoedd y dylid codi'r materion fel rhan o gynllun gwaith 2020 - 2022.

## 14 Bargen Ddinesig Bae Abertawe - Achos Busnes Rhaglen Sgiliau a Thalent

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lleoedd ddiweddariad o achos busnes Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe (ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad) a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Cabinet ac archwiliwyd sut y gall hyn gyd-fynd ag eitem agenda datblygu sgiliau lleol PDP yn y dyfodol.

Nododd yr aelodau'r cefndir a'r cyd-destun, y cynllun busnes ar gyfer y rhaglen sgiliau a thalent, gwybodaeth am gyllido, cyflwyno'r cyfnodau (gan gynnwys y dadansoddiad bylchau ac a yw'n ofynnol i'r cyngor wneud ymyriadau pellach), yr

heriau a wynebir mewn perthynas â bylchau mewn sgiliau, nod y rhaglen a'r effaith ariannol.

Trafododd yr aelodau'r canlynol:

1) Datblygu sgiliau a recriwtio lleol a sut y gall y cyngor ddatblygu ei bolisïau i gynorthwyo yn hynny o beth.
2) Rôl ysgolion wrth alinio'r cwricwlwm oed ysgol â'r hyn sy'n ofynnol ar ôl 16 oed er mwyn mynd i'r afael â'r prinder sgiliau enfawr.
3) Costau ffïoedd ymgynghorwyr a'r angen i sicrhau bod mwyafrif yr arian yn cael ei ddefnyddio i ariannu cyfleoedd hyfforddi.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Lleoedd am yr adroddiad llawn gwybodaeth.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

**1** Bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd yn cyflwyno adroddiadau manwl pellach, gan fynd i'r afael â sgiliau lleol a recriwtio, gan gynnwys meysydd ymyrraeth y cyngor a rôl addysg wrth ddatblygu cwricwlwm sy'n mynd i'r afael â'r materion gyda phrinder sgiliau i bobl dros 16 oed. Mae'r adroddiadau hyn i'w hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 21 Hydref, 2021.

## 15) Cynllun Gwaith 2020/2022

Cyflwynodd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd gynllun gwaith 2020-2022.

Codwyd ymholiadau ynghylch amserlennu adroddiadau pellach mewn perthynas â Bargen Ddinesig Bae Abertawe (Achos Busnes Sgiliau a Thalent); diweddariad mewn perthynas â'r arolwg Bioamrywiaeth ar-lein a mesurau tawelu traffig. Awgrymwyd trefnu cyfarfod ar wahân i ail flaenoriaethu eitemau'r cynllun gwaith.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd i drefnu cyfarfod cynllun gwaith sy'n cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, a'r Cyfarwyddwr Lleoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.33pm

**Cadeirydd**